GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Datblygu iaith - Ehangu

O tua 15 mis ymlaen, efallai y byddwch chi'n dechrau sylwi bod eich plentyn yn defnyddio mwy o eiriau ac yn rhoi rhai o'r geiriau at ei gilydd i wneud brawddegau byr.

Ar y cam hwn, bydd rhoi'r cyngor a'r strategaethau isod ar waith yn helpu iaith eich plentyn i barhau i dyfu.

**Beth ddylwn i ei wneud?**

- Mae ehangu (ychwanegu 1-2 air) yn offeryn hawdd **i helpu i ddatblygu sgiliau iaith eich plentyn.**
- Pan fydd eich plentyn yn dweud gair neu ymadrodd, gwrandewch yn ofalus ac **ehangwch ar beth mae'n siarad amdano, trwy ychwanegu 1-2 air.**

  Os yw eich plentyn yn dweud, "**ci!**" rydych chi'n dweud, "**ie, ci mawr!**"
  Os yw eich plentyn yn dweud, "**buwch, moo**" dywedwch, "**mae fuwch yn dweud moo!**"

- Mae'n well defnyddio'r dechneg hon pan fydd eich **plentyn wir yn ymgysylltu gyda chi** – yn ystod **gweithgaredd gyda'ch gilydd** neu **amser bwyd**.
- Os yw'n **hyderus yn dweud un gair** ar y tro, gallwch chi **ailadrodd ymadrodd 2 air** yn ôl iddo: "bwyta cinio", "mwy o laeth", "dillad gwyrdd".
- Os yw'n siarad mewn **ymadroddion syml**.





**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos**

SCAN ME

SCAN ME

[www.llyw.cymru/siarad-](www.llyw.cymru/siarad-)

## Sut?

**Gwrandewch ar y geiriau neu'r ystumiau mae'n eu defnyddio i gyfathrebu â chi ac ymhelaethwch a beth mae'n siarad amdano, trwy ychwanegu 1-2 air.**

**<u>Gweithgareddau</u>**

- **Gwnewch y golchi dillad gyda'ch gilydd** – mae hyn yn gyfle gwych i siarad am ddillad gwahanol.
- **Ceisiwch osod siop fach** yn eich ystafell fyw neu gegin a gofynnwch i'ch plentyn bach ddod o hyd i eitemau i chi.
- **Gall tasgau bob dydd fel coginio** fod yn gyfle gwych i siarad â'ch plentyn am wahanol bethau.
- Rhowch hwb i sut mae eich plentyn yn sgyrsio trwy **gymryd amser i enwi pethau** tra byddwch chi allan.

**Symud ymlaen…**

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod chi'n hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, **ceisiwch gyflwyno berfau (geiriau gweithredu).** Defnyddiwch gyfleoedd wrth iddo godi – mynd am dro, chwarae gyda theganau neu amser prydau bwyd. **Cerdded, neidio, clapio,**